LEWIS, LEWIS WILLIAM ('Llew Llwyfo '; 1831 - 1901), bardd, nofelydd, a newyddiadurwr

PDF Generated on: Thu, 08 Sep 2022 02:36:35 +0000
https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c-LEWI-WIL-1831

Enw: Lewis William Lewis
Ffugenw: Llew Llwyfo
Dyddiad geni: 1831
Dyddiad marw: 1901
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, nofelydd, a newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: David Gwenallt Jones

Ganwyd 31 Mawrth 1831 ym mhentref Pensarn, Llanwenllwyfo, sir Fôn. Bu'n gweithio pan oedd yn fachgen yng ngwaith copr Parys, ger Amlwch; bu'n brentis gyda brethynnwr ym Mangor; cadwodd siop ei hun, ar ôl hynny, yn Nhalsarn, ac ysgol wedyn yn yr un lle. Yn 1852 yr oedd yn is-olygydd *Y Cymro* (Holywell); yn 1855 symudodd i Lerpwl i olygu 'r *Amserau*; yn 1858 aeth i Aberdâr i olygu 'r *Gwladgarwr* a'r *Glorian*; wedi hyn aeth i Ddinbych ar staff *Y Faner*, ac oddi yno i swyddfa *Herald* Caernarfon. Bu hefyd mewn cysylltiad â'r *Gwron*, *Gwalia*, a'r *Genedl*. Yn 1870 aeth drosodd i America, a bu yno am tua phedair blynedd, a bu'n gyd-olygydd newyddiadur Cymraeg, *Y Wasg*. Aeth i America yr eiltro. Bu ef ac eraill yn cynnal cyngherddau yng Nghymru ac America, ac yr oedd ' Llew Llwyfo ' yn ganwr ysgubol. Yr oedd hefyd yn arweinydd eisteddfodol. Ef, efallai, oedd y gwr mwyaf amryddawn yn y ganrif ddiwethaf. Bu farw 23 Mawrth 1901 yn y Rhyl, a chladdwyd ef ym mynwent Llanbeblig, Sir Gaernarfon.

Bardd yr arwrgerddi oedd ' Llew Llwyfo.' Enillodd ar ' Gwenhwyfar ' yn eisteddfod Merthyr Tydfil, 1859; ar ' Caradog ' yn eisteddfod genedlaethol Aberdâr, 1861; ' Llewelyn ' yn eisteddfod y Rhyl, 1863; ' Dafydd ' yn eisteddfod genedlaethol Aberystwyth, 1865; ' Arthur y Ford Gron ' yn eisteddfod genedlaethol Caer, 1866; ' Elias y Thesbiad ' yn eisteddfod Rhuthyn, 1868; ' Gruffydd ap Cynan ' yn eisteddfod genedlaethol Wrecsam, 1888; ' Ioan y Disgybl Anwyl ' yn eisteddfod genedlaethol Llanelli, 1895; a chafodd lu o wobrau llai pwysig yn eisteddfodau Cymru ac America. Dyma ei brif gyhoeddiadau: *Awen Ieuanc*, 1851; *Llewelyn Parri: neu y Meddwyn Diwygiedig* (nofel), 1855; *Huw Huws neu y llafurwr Cymreig* (nofel), 1860; *Llyfr y Llais*, 1865; *Troadau yr Olwyn*, 1865; *Gemau Llwyfo*, 1868; *Y Creawdwr. Cerdd ddysg (didactic poem)*, 1871; *Cyfrinach Cwm Erfin, a Y Wledd a'r Wyrth* (dwy nofel; diddyddiad); *Buddugoliaeth y Groes* (arwrgerdd), 1880; *Cydymaith yr herwheliwr: neu a gollwyd ac a gafwyd. Chwedl Wledig*, 1882; *Drych y Prif Oesoedd ... ynghyd a rhagdraith gan Llew Llwyfo*, 1883; *A Selection of Sacred and Secular Lyrics from the Welsh with English versions, by Llew Llwyfo*.

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

Bywgraffiad Llew Llwyfo, yn llenyddol, cerddorol, ac eisteddfodol, wedi ei ysrifennu ganddo ef ei hun (Llyfrau Ceiniog Humphreys Caernarfon)

ceir erthyglau arno yn *Y Geninen*, 1901, 1902, ac yn *Y Traethodydd*, 1911, 1921

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Lewis William Lewis

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 2011842

Wikidata: Q13129535

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu